



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nodyn Cyfarwyddyd Ategol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a'u Cyrff Gweinyddol – COVID-19 a Chynllun LEADER



Cwmni Ansodhyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Cwledig
Europe on Rural Development
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nodiadau Cyfarwyddyd Atodol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a'r Cyrff Gweinyddol - COVID-19 a'r Cynllun LEADER

1. Cyflwyniad

Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd Atodol hyn i'w defnyddio gan Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yng Nghymru a'u Cyrff Gweinyddol. Dylid eu darllen gyda ac nid ydynt yn disodli Canllawiau presennol Cynllun LEADER gan Lywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/leader-canllawiau> neu yr hyn a ddarparwyd gan Taliadau Gwledig Cymru, er enghraifft: https://llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-y-diweddaraf-am-y-gwasanaeth-coronafeirws-covid-19-phrosiectau-gefnogir-gan?_ga=2.181689959.1374953036.1589988506-275369678.1569850781

2. Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru ynghylch yr ymateb ac adferiad o COVID-19

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf a newyddion am Coronafeirws ar y wefan sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd:

https://llyw.cymru/coronafeirws?_ga=2.247240260.1374953036.1589988506-275369678.1569850781

Mae'r dogfennau canlynol yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r pwynt ymateb cychwynnol.

"Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws – fframwaith ar gyfer adferiad":

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/arwain-cymru-allan-or-pandemig-coronafeirws.pdf>

Y "Cynllun Gweithredu Coronafeirws":

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/coronavirus-action-plan.pdf>

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu sut y bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch llacio'r cyfyngiadau symud yn y ddogfen "Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi – Dal i Draffod":

<https://llyw.cymru/llacior-cyfyngiadau-ar-ein-cymdeithas-heconomi-dal-i-draffod>

Mae cyngor penodol ar gyfer busnesau i'w weld ar Wefan Busnes Cymru:

<https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy>

Mae mentrau amaethyddol/ffermio penodol wedi'u sefydlu yn cynnwys Farmwell Cymru a lansiwyd ar 30 Mawrth 2020 <https://farmwell.cymru/> Mae'r fenter yn anelu at roi yr wybodaeth ddiweddaraf i ffermwyr a manylion y gwasanaethau cymorth, allai helpu iddynt hwy a'u busnesau ffermio aros yn gryf a chadarn drwy'r amseroedd yma o newid ac anwadalrwydd. Mae Partneriaeth Elusennau Fferm Cymru sydd wedi ei hwyluso gan Lywodraeth Cymru wedi ei sefydlu i ddod ag elusennau gwledig sydd â chysylltiad uniongyrchol ag amaethyddiaeth yng Nghymru at ei gilydd. Mae'n annog cydweithio rhwng y Llywodraeth ac elusennau i gefnogi ffermwyr yn well.

3. Nodyn Gwybodaeth y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch COVID-19 a'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys triniaeth Mesur LEADER 19

Ar 27ain Mawrth 2020 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd nodyn gwybodaeth ar y defnydd o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Ewropeaidd (EAFRD) i helpu i ymdopi gydag effaith economaidd-gymdeithasol yr achos coronafeirws mewn ardaloedd gwledig. Mae'r nodyn yn rhoi amlinelliad o sefyllfaoedd tyngedfennol posibl megis yr argyfwng COVID-19. O ran LEADER, nodir y gall Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER (Erth. 42) gefnogi datblygiad gwasanaethau sylfaenol a chyfleusterau gofal iechyd fel rhan o'u strategaethau datblygu lleol, gan gynnwys darpau gwasanaethau gofal.

Gall y Cynllun LEADER fod yn offeryn economaidd-gymdeithasol defnyddiol o ran yr ymateb ar unwaith i'r argyfwng mewn ardaloedd gwledig a'r broses adfer mwy hirdymor.

Cafodd pa mor fregus yn economaidd-gymdeithasol yw rhai ardaloedd gwledig ei bwysleisio yng ngweithgor Gwledig OECD "Goblygiadau yr argyfwng Coronafeirws (COVID-19) ar Ddatblygu Gwledig: pa ymatebion polisi?" a gynheliwyd fis Ebrill 2020:

"Mae busnesau a phreswylwyr gwledig hefyd yn fregus o ran argyfyngau economaidd allai godi yn ystod argyfwng y pandemig a mesurau rheoli cysylltiedig. Gallai nodweddion demograffig (cyfran uwch o'r boblogaeth oedrannus) a nodweddion daearyddol (mwy o bellter i ganolfannau gofal iechyd) yn ogystal â llai o staff a chyfleusterau gofal iechyd rwystro gallu y rhanbarthau gwledig i ymateb i'r pandemig. Gall yr arafu disgwyltiedig yn yr economi a'r masnachu byd-eang gael effaith ddifrifol ar yr economi wledig o ystyried eu bod yn dibynnu mwy ar weithgareddau masnachu ac yn arbennig ar y rhai hynny sy'n arbenigo o fewn sectorau bregus".

4. Canllawiau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun LEADER, gan gynnwys camau ymarferol.

Dyma rhai enghreifftiau rhagorol ledled y DU ac Ewrop o Grwpiau Gweithredu Lleol sydd eisoes yn cefnogi eu cymunedau gwledig yn bro-actif yn ystod y pandemig COVID-19 (gweler Atodiad 1).

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mae angen cefnogi'r dinasyddion a'r cymunedau mwyaf bregus. Y blaenoriaethau ar hyn o bryd ar lawr gwlad yw:

- sicrhau bod bwyd a chyflenwadau meddygol ar gael i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf gwledig/wedi'u hynysu yn gymdeithasol
- Nodi adnoddau lleol gan gynnwys cydlynnu gwirfoddolwyr a chefnogi cadwyni cyflenwi byr
- Rhwydweithio a chydweithio i sicrhau dull o ymateb yn ddoeth a phriodol i anghenion lleol

Bydd angen cydweithio hefyd â chymunedau gwledig wrth inni symud ymlaen o'r cyfnod ymateb i'r cyfnod adfer i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd-gymdeithasol a'r effeithiau eraill ar y gymdeithas o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, megis effaith economaidd ar grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol o fethu gweithio, effaith ar fusnesau o fod ar gau neu'n wynebu y gostyngiad yn y galw gan gwsmeriaid, y niwed seicoleg i'r cyhoedd o bellter cymdeithasol a nifer o rai eraill.

Caiff y 5 Thema yng Nghymru ar gyfer y Cynllun LEADER ei amlinellu isod ac maent yn cael eu hystyried yn berthnasol wrth gefnogi yr ymateb i flaenoriaethau COVID-19 ar hyn o bryd, yn enwedig Themâu 1-3.

Themâu Cynllun LEADER:

- I. Ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- II. Hwyluso datblygiadau cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- III. Edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- IV. Ynni adnewyddadwy ar lefel Gymunedol
- V. Defnyddio technoleg ddigidol

5. Adolygiad Strategaeth Datblygu Lleol 2020

Mae gan pob Grŵp Gweithredu Lleol (GGLI) LEADER Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI), mae hwn yn lwybr i weithredu LEADER, gan ddarparu rhesymeg ymyrraeth i'r GGLlau o ddadansoddi Sefyllfa i weithgarwch ar lawr gwlad.

Mae'r SDLI yn ddogfen amlflwydd felly er mwyn ei chadw'n gyfredol mae'n rhaid ei hystyried fel "dogfen fyw" a'i diweddarau'n rheolaidd. Bydd y diweddariadau hyn yn cynnwys ystyried a oes angen newid y dadansoddiad o'r sefyllfa ai peidio yn dilyn problemau/argyfyngau penodol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2015 gofynnwyd i'r GGLlau ystyried unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol i'w SDLI mewn cysylltiad â'r argyfwng dyngarol sy'n cael ei wynebu gan ffoaduriaid sy'n cyrraedd yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru yn galw ar y GGLlau i adolegu eu Strategaethau Datblygu Lleol i ystyried yr argyfwng COVID-19 presennol ac i ystyried yr argyfwng presennol "Ask".

I sicrhau bod cymorth ar gael i GGLlau bydd Rhwydwaith Gwledig Cymru yn creu gweithgor gorchwyl a gorffen i roi cyngor ar brofiadau arfer da a rhwydweithio ac i ystyried yr hyn sydd ei angen wrth i bandemig COVID-19 symud i'r cyfnod adfer.

6. Gofynion adrodd ar gyfer COVID-19

Mae Canllawiau Dangosyddion Llywodraeth Cymru yn nodi'r Dangosyddion Perfformiad sydd i'w defnyddio o dan Gynllun LEADER:

<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/documents/LEADER%20Monitoring%20Guidance%20CY.pdf>

Cafodd y Dangosyddion Perfformiad presennol eu dewis i adlewyrchu 7 prif egwyddor y fethodoleg LEADER fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd angen, fodd bynnag, i Gyrrff Gweinyddu y Grŵp Gweithredu Lleol rannu y llwyddiannau yn erbyn y Dangosyddion o ganlyniad i ymyraethau sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19 ac/neu'r adferiad at ddibenion cofnodi. Dylai Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER gofnodi unrhyw lwyddiannau yn gysylltiedig â COVID-19 o hyn ymlaen a gallant hefyd gynnwys unrhyw lwyddiannau ôl-weithredol ers 27 Mawrth 2020.

Ni fydd Dangosyddion y Rhaglen a Systemau Rheoli Gwybodaeth y Prosiect (PPIMS) yn cynnwys dadansoddiad o "COVID-19" a "dim COVID-19" felly dylai Cyrff Gweinyddol barhau adrodd fel arfer ar PPIMS. Fodd bynnag, bydd angen i Grwpiau Gweithredu Lleol gyflwyno adroddiad naratif chwarterol yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Lywodraeth Cymru ar y cynnydd yn erbyn y targedau ariannol a pherfformiad ar draws eu prosiectau LEADER, a bydd hyn yn rhannu gweithgarwch yn gysylltiedig â COVID-19. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gasglu ynghyd adroddiad chwarterol a blynyddol ar lefel cynllun LEADER.

7. Ail-werthuso prosiectau Cynllun LEADER

Yn ngoleuni COVID-19 a'r newidiadau arfaethedig i'r Cynllun LEADER a amlinellwyd uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i bob prosiect Cynllun LEADER gael un ail-werthusiad mawr arall i roi'r cyfle i Gyrrff Gweinyddu GGLI ddiwygio eu dull o weithio neu ail-ffocysu eu cymorth i ymateb i'r sefyllfa bresennol. Mae hyn ar y ddealltwriaeth y bydd:

- a) pob cais am ail-werthusiad Mawr i gael ei gyflwyno (yn y fformat gofynnol) i Lywodraeth Cymru cyn **24 Gorffennaf 2020**. Ni fydd ceisiadau'n cael eu derbyn wedi'r dyddiad hwn.
- b) hwn fydd yr ail-werthusiad mawr olaf gaiff noddwyr y prosiect ei wneud. Ni fydd cyfle arall o fewn cyfnod y Rhaglen.
- c) O ran costau cyflogau, mae'n bosibl y bydd rhai Cyrff Gweinyddol eisoes wedi nodi arbedion ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021 os oes staff LEADER wedi eu symud i swyddi eraill nad ydynt o fewn LEADER (amser nad oes modd i LEADER dalu amdano). Gallai rhai o staff LEADER hefyd fod ar y cynllun seibiant swyddi o dan gynllun Llywodraeth y DU, gan dderbyn y grant o 80% am gyflogau, ni ellir cyfrif hwn ychwaith fel gwariant cymwys o dan Gynllun LEADER.

Bydd yn rhaid i holl symudiadau y Grant Rhaglen Datblygu Gwledig rhwng y blynyddoedd ariannol o dan y Cynllun LEADER gael eu cytuno gyda'r Awdurdod Rheoli a Thîm Arweinyddiaeth Uwch yr Asiantaeth Dalu (MAPA SLT). Bydd MAPA SLT yn ystyried holl geisiadau ail-werthuso Cynllun LEADER gyda'i gilydd. Dyma'r cyfle olaf i greu proffil newydd rhwng y blynyddoedd ariannol.

Dyma enghraifft o'r rhestr o newidiadau y gall Noddwyr y Prosiect wneud cais amdanynt mewn Ail-werthusiad Mawr:

- Ychwnaegu penawdau gwariant ychwanegol i'r proffil cyflenwi
- Symud arian rhwng penawdau gwariant
- Symud arian rhwng prosiectu Cynllun LEADER. Mae'n rhaid i bob cais barchu'r gofyniad a amlinellwyd ym Mharagraff 2 o Erthygl 35 o Reoliad (UE) Rhif 1303/2013 na ddylai'r cymorth ar gyfer costau rhedeg ac animeiddio fod yn fwy na 25% o gyfanswm y gwariant cyhoeddus a ysgwyddwyd o fewn y Strategaeth Datblygu Lleol. Hefyd, o fewn hynny, uchafswm o 10% ar gostau yn unol â Chanllawiau Cynllun LEADER.
- Ymestyn dyddiad diwedd y prosiect (y cais olaf i gael ei gyflwyno erbyn Mehefin 2023)
- Newidiadau i allbynnau a thargedau y dangosyddion. Mae hyn yn cynnwys ychwanegu dangosyddion ychwanegol i'r proffil cyflenwi.
- Ail-broffilio gwariant y cais
- Newid cyfnodau hawlio
- Gostwng costau'r prosiect/dyfarniad grant
- Newidiadau i weithgareddau arfaethedig y prosiect sy'n bodloni Canllawiau'r Cynllun
- Gellir gofyn am newidiadau i gyfraddau Cost yr Uned yn yr ail-werthusiad, fodd bynnag ni chaiff rhain eu hychwanegu at PPIMS tan i'r dystiolaeth ofynnol ddod i law, wedi'i ddilysu ac i Lywodraeth Cymru Sicrhau Ansawdd a'u cymeradwyo.

Bydd angen ail-broffilio ariannol ar y sail ganlynol:

2020/2021 – Bydd Llywodraeth Cymru ond yn caniatáu **gostyngiadau** a dim cynnydd i Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig sydd ar broffil o dan Gynllun LEADER

2021/2022 – Gellir gofyn am gynnydd i broffil Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig

2022/2023 – Gellir gofyn am gynnydd i broffil Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig

2023/2024 – Gellir gofyn am gynnydd i broffil Grant y Rhaglen Datblygu Gwledig

Bydd Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Noddwyr Prosiectau ofyn i ddwyn tan-wariant domestig ymlaen, wedi cronriad, ar 31/03/2020, pan y gellir ail-broffilio y tanwariant hwn o fewn blynyddoedd ariannol 2021/2022, 2022/2023 a 2023/2024.

Dylai Noddwyr y Prosiect sydd wedi cyflwyno ceisiadau am ail-werthuso yn y gorffennol i Lywodraeth Cymru o dan ymarfer 2019/2020 sydd heb eu cymeradwyo eto a'u huwchlwytho ar PPIMS edrych eto ar eu ffurflenni ail-werthuso a'u Proffiliau Cyflenwi a'u hail-gyflwyno erbyn y dyddiad cau o **24 Gorffennaf 2020**. Bydd hyn yn caniatáu i Noddwyr y Prosiect gwblhau Proffiliau Cyflenwi ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n weddill. **Bydd unrhyw Noddwyr Prosiectau sydd ddim yn gwario/croni y Grant Rhaglen Datblygu Gwledig a ragwelwyd mewn un flwyddyn ariannol, yn unol â'u Proffil Cyflenwi, yn dilyn yr ail-werthusiad Mawr hwn, yn colli unrhyw Grant Rhaglen Datblygu Gwledig na chafodd ei wario.**

Atodiad 1:

Sut y mae LEADER yn cefnogi ymateb argyfwng COVID-19:

Cynhaliwyd Cyngor Gweinidogion Amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd ar 25 Mawrth 2020. Gyda diogelwch y cyflenwad bwyd yn brif flaenoriaeth, dywedodd Marija Vučković, Gweinidog Amaethyddol Croatia:

“Er mwyn sicrhau bod y gadwyn cyflenwi bwyd yn gweithredu fel arfer, mae'n hollbwysig nodi'r rhwystrau tyngedfennol a achosir gan y pandemig COVID-19. Llwyddwyd i ddod o hyd iddynt heddiw. Y prif broblemau a nodwyd gan ran fwyaf yr Aelod Wladwriaethau oedd cyfyngiadau i symud nwyddau, newidiadau mewn patrymau defnyddio ac ar weithredu systemau cynhyrchu bwyd-amaeth, yn ogystal â diffyg gweithlu oherwydd cau ffiniau, gofynion pellhau cymdeithasol, ynysu gorfodol neu gwarantïau. Wedi'r drafodaeth heddiw, mae gennym syniad cliriach o'r sefyllfa.”

Mae'r enghraifft ganlynol, gan y Rhwydwaith Ewropeaidd Datblygu Gwledig (ENRD), yn dangos sut y bydd Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER o fewn Aelod Wladwriaethau yr UE yn cael eu defnyddio i helpu yn ystod yr argyfwng COVID-19:

Sbaen

Cymuned wledig yn Sbaen yn cymryd camau yn erbyn COVID-19

Mae dros 3,500 o deuluoedd yn dibynnu ar weithgareddau a ddatblygwyd yn gysylltiedig â cheirios enwog y Valle del Jerte, Sbaen. Mae'r prif sectorau economaidd yn yr ardal yn cynnwys amaethyddiaeth a thwristiaeth – mae'r blodau ceirios eithriadol yn y dyffryn wedi dod yn ddirwyddiad cenedlaethol. Tymor y Pasg fel arfer yw'r prif dymor ar gyfer twristiaeth wledig yn yr ardal, ond eleni nid oes disgwyl gweld twristiaid. Mae argyfwng y Coronafeirws wedi hyd yn oed cael effaith ar bacio y ceirios.

Yn y gymuned hon o 11 o bentrefi ac oddeutu 12, 000 o drigolion, mae [Grŵp Gweithredu Lleol LEADER](#) wedi defnyddio cyfres o fentrau pwysig yn cynnwys pob prif randdeiliad:

- Mae'r sefydliadau menywod a rhanbarthau dinesig ym mhob pentref yn trefnu grwpiau o wirfoddolwyr i greu masgiau;
- Sefydlwyd cronfa o gynorthwyr yn y cartref ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn y gymuned;
- Maent yn chwilio am ffyrdd o gynnig swyddi yn y tymor ceirios sydd ar ddod i bobl sydd wedi colli eu swyddi ym maes twristiaeth – a thrwy hynny helpu'r rhai hynny mewn angen a datrys y prinder gweithwyr oherwydd y cyfyngiadau;
- Maent yn helpu'r sector ceirios i ddatblygu protocolau cyffredin er diogelwch gweithwyr.

Enghraifft o fewn y DU (Alban)

Mae'r elusen [Forth Environment Link](#), wedi bod yn allweddol wrth ddechrau Peebles Neighbour Food, diolch i £208,000 o grantiau gan raglen LEADER EU Llywodraeth yr Alban, i sefydlu 8 o farchnadoedd ffermwyr clicio a chasglu newydd ledled yr Alban.

<https://www.ruralnetwork.scot/news-and-events/news/regions-first-digital-farmers-market-open-peebles>

Cymru

Mae nifer o Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER a'u Cyrff Gweinyddol yng Nghymru wedi addasu eu harbenigedd ac wedi defnyddio dull LEADER i helpu busnesau a chymunedau yn ystod yr ymateb brys i bandemig y coronafeirws. Mae gwybodaeth am weithgarwch yng Nghymru i'w weld ar wefannau Rhwydwaith Gwledig Cymru:

<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/newyddion-digwyddiadau-a-astudiaethau-achos/newyddion/cymorth-cymunedol-busnes>